**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

30 Tachwedd 2021

Annwyl Weinidog,

Rwy'n siomedig nad ydych yn teimlo y gallwch roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yr wythnos nesaf. Fel y gwnaethoch sôn, ym mis Mehefin pleidleisiodd y Senedd yn unfrydol i gyfarwyddo Pwyllgor i gynnal adolygiad "ar frys" o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Rwyf wedi teimlo pwysau'r cyfarwyddyd hwnnw yn fawr – gan sicrhau, ar ôl sefydlu'r Pwyllgor, ein bod wedi troi ein llygaid at y gwaith hwn ar unwaith. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf a lansiwyd gan y Pwyllgor, a'r panel tystiolaeth cyntaf a gynhaliwyd gennym, yn rhan o'n hadolygiad o'r Rheoliadau hyn.

Rwy'n derbyn bod yr achos llys yn ychwanegu lefel o gymhlethdod i'n hadolygiad. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi cynnal tair sesiwn dystiolaeth o ansawdd da gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yr undebau ffermio a sefydliadau amgylcheddol.

Wrth benderfynu sut a phryd y dylem ddechrau ar yr adolygiad hwn, fe'm hysbyswyd y gallai'r achos llys gymryd blwyddyn, ac y byddai'n debygol iawn y byddai'r parti sy'n colli yn apelio, gan ychwanegu rhagor o amser ac ansicrwydd ynghylch pryd y gallem fwrw ymlaen â chyfarwyddyd y Cyfarfod Llawn. Er y byddai wedi bod yn hawdd gohirio'r adolygiad cyfan nes i'r achos gael ei glywed, roeddwn yn pryderu na fyddai hyn yn bodloni'r cais gan y Senedd i edrych ar y mater ar frys.

Er mwyn osgoi niweidio’r achos llys rwyf wedi sicrhau bod y Pwyllgor yn glynu wrth y polisi sy'n cefnogi'r Rheoliadau ac nad yw'n crwydro i'w cyfreithlondeb. Mae'n amlwg mai mater i'r llysoedd yw hwn, ond mater i'r Pwyllgor hwn yw craffu ar y polisi.

Gan nad yw'n glir pryd yn union y bydd y Llys yn traddodi ei ddyfarniad, rwy’n pryderu y gallai eich penderfyniad i beidio â bod yn bresennol ychwanegu misoedd at yr amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn. Os oes apêl, gallai hynny arwain at hyd yn oed fwy o oedi. Gyda hynny mewn golwg, felly, byddwn yn eich annog i ailystyried eich safbwynt ac i ddod i’n cyfarfod ar 9 Rhagfyr.

Diolch am gynnig cyfarwyddo eich swyddogion i gysylltu â chlerc y Pwyllgor, byddwn yn croesawu hynny.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.